Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Canllawiau Statudol – Swyddogaethau Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol

Dyddiad

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cynnwys

**Canllawiau Statudol – Swyddogaethau Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol** **1**

**Cynnwys** **1**

**Cyflwyniad** **2**

Cyflwyniad 2

Terminoleg 2

**Rhan Un: Rôl yr Eiriolwyr** **4**

1.1. Trosolwg 4

1.2. Rôl Eiriolwyr ar eu Penodi i Ddigwyddiad Mawr 5

1.3 Rôl Eiriolwyr Ychwanegol sy’n cael eu Penodi i Ddigwyddiad Mawr 11

1.4 Rôl Eiriolwyr ar ôl i’r achos ddod i ben 12

**Rhan Dau: Gweithio ag Awdurdodau Cyhoeddus** **14**

2.1 Cefndir 14

2.2 Egwyddorion 14

2.3 Gwneud Cwyn i Awdurdod Cyhoeddus 15

**Rhan Tri: Rhannu a Rheoli Gwybodaeth yr IPA** **16**

3.1 Cefndir 16

3.2 Yr IPA a fframweithiau deddfwriaethol presennol 16

3.3 Sut y bydd yr IPA yn defnyddio gwybodaeth 18

# Cyflwyniad

## Cyflwyniad

Mae Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol (IPA) yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd o dan Ran 2 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 (“y Ddeddf”) i gefnogi dioddefwyr digwyddiadau mawr sy’n digwydd yng Nghymru a Lloegr. Mae’r canllaw hwn, a gyhoeddir o dan adran 44 o’r Ddeddf, yn nodi’r materion y bydd yn rhaid i eiriolwyr eu hystyried wrth weithredu eu swyddogaethau.

Gall y cyfnod ar ôl digwyddiad mawr fod yn eithriadol o anodd i ddioddefwyr, rhai sydd mewn profedigaeth ac wedi’u hanafu, a bydd yn aml yn cynnwys llawer o asiantaethau a phrosesau’r wladwriaeth. Bydd yr IPA yn cynorthwyo dioddefwyr i weithio’u ffordd drwy hyn drwy eu helpu i ddeall ac i ddilyn y prosesau cymhleth sy’n dilyn digwyddiad mawr, gan eu cyfeirio at wasanaethau cymorth a’u helpu yn y dyddiau ar ôl y digwyddiad hyd at gwblhau achos, a all fod yn un maith. Bydd yr IPA hefyd yn ddolen gyswllt bwysig rhwng dioddefwyr ac awdurdodau cyhoeddus.

Pan fydd digwyddiad wedi cael ei ddatgan fel digwyddiad mawr o dan Ran 2 o’r Ddeddf a bod Eiriolwr wedi’u penodi, mi fyddant yn ymgymryd â rôl benodol mewn cysylltiad â’r digwyddiad hwnnw. Mae’r canllaw hwn yn disgrifio cwmpas y rôl honno a sut y dylai eiriolwyr ymgymryd â’u dyletswyddau i gynorthwyo dioddefwyr.

## Terminoleg

Yn y canllaw hwn, defnyddir y term ‘IPA’ i gyfeirio at y swyddfa yn ei chyfanrwydd - mae hyn yn cynnwys unrhyw eiriolwyr a benodir a’r ysgrifenyddiaeth sy’n eu cynorthwyo. Defnyddir ‘Eiriolwr/wyr’ i gyfeirio ar unrhyw unigolyn/ion a benodir fel eiriolwyr o dan Ran 2 o’r Ddeddf i helpu dioddefwyr digwyddiad mawr. Mae ‘Eiriolwr Sefydlog’ yn cyfeirio at yr eiriolwr a benodwyd yn barhaol ac sydd â swyddogaethau statudol, boed hwy wedi’u penodi i helpu dioddefwyr digwyddiad mawr neu beidio.

Oni nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriadau at yr ‘Ysgrifennydd Gwladol’ yn y ddogfen hon yn cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Mae unrhyw gyfeiriadau at ‘ddioddefwr’ neu ‘ddioddefwyr’ yn cyfeirio at ddioddefwyr digwyddiad mawr yn ôl y diffiniad yn adran 34(5) o’r Ddeddf.

Mae ‘dioddefwyr’, yn achos digwyddiad mawr, yn golygu –

(a) unigolion sydd wedi dioddef niwed o ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad (boed y niwed hwnnw'n ddifrifol neu beidio); ac

(b) aelodau teulu agos neu ffrindiau agos unigolion sydd wedi marw neu ddioddef niwed difrifol o ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad."

Yn y diffiniad deddfwriaethol hwn, mae 'o ganlyniad uniongyrchol' yn cyfeirio at fod yn bresennol yn gorfforol yn lleoliad y digwyddiad ar adeg y digwyddiad. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio 'niwed difrifol'; fodd bynnag, cymerir fod 'niwed difrifol' yn golygu anafiadau a achoswyd gan y digwyddiad sydd â chanlyniadau a fydd yn newid bywydau ac sy'n annhebygol o wella'n sylweddol dros amser. O dan y Ddeddf, mae 'niwed' yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol.

Mae'r ddogfen hon, a dogfennau eraill sy'n ymwneud ag IPA, yn cyfeirio'n bennaf at 'ddioddefwyr', i gyd-fynd â'r iaith a ddefnyddir yn y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fydd pob unigolyn sydd wedi profi niwed yn gweld eu hunain fel 'dioddefwr' - gallant yn hytrach weld eu hunain fel 'goroeswr', 'dioddefwr-goroeswr', neu efallai na fyddant yn uniaethu'r hyn maent wedi'i brofi ag unrhyw derm. Fodd bynnag, gan fod deddfwriaeth sylfaenol yn ystyried y rhai sy'n gymwys i gael ei help fel 'dioddefwyr', dyna'r term a ddefnyddir yn yr holl ddogfennau sy'n ymwneud ag IPA i ddangos bod yr unigolion hyn yn ddioddefwyr yng ngolwg y gyfraith i ddibenion y ddeddfwriaeth IPA. Mae'n bwysig, fodd bynnag, pan fydd staff yr IPA, boed hwy'n eiriolwyr neu'r ysgrifenyddiaeth, yn cysylltu'n uniongyrchol â dioddefwyr, eu bod yn ymwybodol o'r derminoleg a ffefrir gan y dioddefwr.

Mae digwyddiad mawr yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf, i ddibenion yr IPA, fel digwyddiad sydd:

(a) yn digwydd yng Nghymru neu Loegr;

(b) achosi marwolaeth, neu niwed difrifol, i nifer sylweddol o bobl; ac

(c) sy'n cael ei ddatgan yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel digwyddiad mawr.

I ddigwyddiad gael ei ddatgan yn ffurfiol fel digwyddiad mawr i ddibenion yr IPA, rhaid iddo fod wedi achosi marwolaeth, neu niwed difrifol, i nifer sylweddol o bobl a chael ei ddatgan felly yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Gweler yr 'Independent Public Advocate Policy Statement: The Definition of a Major Incident and Appointment of an Advocate' am ragor o fanylion am y broses hon.

# Rhan Un: Rôl yr Eiriolwyr

## 1.1. Trosolwg

1.1.1. Mae gan yr Eiriolwr Sefydlog swyddogaethau penodol a ddisgrifir yn adran 35 o'r Ddeddf. Ymgymerir â'r swyddogaethau deddfwriaethol hyn boed hwy wedi'u penodi i ddigwyddiad neu beidio. Y swyddogaethau hyn yw:

(a) cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar fuddiannau dioddefwyr digwyddiadau mawr, a'u triniaeth gan awdurdodau cyhoeddus mewn ymateb i ddigwyddiadau mawr;

(b) cynghori eiriolwyr eraill ar weithredu swyddogaethau'r eiriolwyr rheini;

(c) paratoi adroddiadau'n unol ag adran 41 o'r Ddeddf.

1.1.2. Rhaid i'r Eiriolwr Sefydlog adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar: y modd maent wedi gweithredu eu swyddogaethau yn y flwyddyn honno; materion y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn dymuno eu cael yn ysgrifenedig; a materion eraill y bydd yr Eiriolwr Sefydlog yn barnu sy'n berthnasol i'w swyddogaethau neu i swyddogaethau eiriolwr arall. Dylai'r Eiriolwr Sefydlog ystyried y ffordd orau o wneud defnydd o'r adroddiadau hyn a dylent ystyried a fyddai'n briodol i gynnwys unrhyw fyfyrdodau ar ddatblygiadau diweddar i gynorthwyo dioddefwyr digwyddiadau mawr.

1.1.3. Un o swyddogaethau statudol yr Eiriolwr Sefydlog o dan adran 35(2)(a) o'r Ddeddf yw cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar fuddiannau dioddefwyr digwyddiadau mawr a sut y cawsant eu trin gan awdurdodau cyhoeddus. Gall hyn gynnwys monitro a yw awdurdodau cyhoeddus yn glynu wrth y Siarter ar gyfer Teuluoedd mewn Profedigaeth drwy Drychineb Gyhoeddus[1] ('y Siarter), a gynigiwyd gan yr Esgob James Jones. Mae'r Llywodraeth yn un o lofnodwyr y Siarter sy'n cyflwyno cyfres o ymrwymiadau i weithredu'n dryloyw ac er budd y cyhoedd.

1.1.4. Mae'r Siarter yn gweithredu fel meincnod i gyrff cyhoeddus i sicrhau na fyddant yn ailadrodd y methiannau a achosodd gymaint o drallod a dioddefaint i deuluoedd Hillsborough. Mae gan yr Eiriolwr Sefydlog rôl bwysig i sicrhau bod ymrwymiadau'r Siarter yn cael eu cynnal yn achos dioddefwyr digwyddiadau mawr. Dylai'r Eiriolwr Sefydlog annog, i'r graddau posibl, mabwysiadu arferion da o ran trin dioddefwyr digwyddiadau mawr, ac mae glynu wrth y Siarter yn rhan bwysig o hynny. Pe bai'r Eiriolwr Sefydlog yn dod i wybod nad yw awdurdodau'n glynu wrth y Siarter yn achos

[1] Charter_for_Families_Bereaved_through_Public_Tragedy.pdf

dioddefwyr digwyddiadau mawr, cyfrifoldeb yr Eiriolwr Sefydlog fydd penderfynu sut i roi sylw i hynny, ond byddant gan amlaf yn defnyddio'r dulliau arferol i dynnu sylw at hyn (llythyr, cyfarfod â'r Gweinidog perthnasol, neu ei gynnwys mewn adroddiad gan yr IPA). Dylai eiriolwyr a benodir i ddigwyddiad ystyried sut y gallant gynorthwyo'r Eiriolwr Sefydlog yn yr ymarferiad monitro hwn.

1.1.5. Hefyd, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dylai pob eiriolwr gadw canllaw Trysorlys Ei Fawrhydi, 'Managing Public Money' mewn cof.

## 1.2. Rôl Eiriolwyr ar eu Penodi i Ddigwyddiad Mawr

1.2.1. Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn datgan yn ysgrifenedig fod digwyddiad mawr wedi digwydd, gallant benodi eiriolwr i helpu dioddefwyr y digwyddiad. Bwriad y Llywodraeth yw mai'r eiriolwr a benodwyd gyntaf i ddigwyddiad mawr fydd yr Eiriolwr Sefydlog fel arfer, oni bai eu bod yn sâl, neu nad ydynt ar gael am reswm arall,

1.2.2. Gall eiriolwyr ddefnyddio eu disgresiwn wrth benderfynu pwy i'w cynorthwyo; fodd bynnag, rhaid i unigolyn gyflawni'r meini prawf cymhwystra er mwy cael help. Os bydd unigolion nad ydynt yn cyflawni'r meini prawf yn cysylltu â'r IPA, dylai eiriolwyr ystyried y ffordd orau o'u cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol eraill.

1.2.3. Bydd unigolyn yn gymwys i gael cymorth gan eiriolwr os ydynt yn cyflawni'r meini prawf canlynol:

1) eu bod yn bresennol yn gorfforol yn y digwyddiad ac wedi profi niwed neu niwed difrifol o ganlyniad uniongyrchol i'r digwyddiad; neu

2) eu bod yn berthynas agos neu'n ffrind agos i rywun a oedd yn bresennol yn gorfforol yn y digwyddiad ac a fu farw neu a ddioddefodd niwed difrifol o ganlyniad i'r digwyddiad.

1.2.4. O dan y Ddeddf ni chaniateir i eiriolwyr gynorthwyo unigolion dan 18 oed yn uniongyrchol – os yw dioddefwr digwyddiad o dan 18 oed, dim ond drwy gynrychiolydd sy'n oedolyn y gall eiriolwr eu helpu.

1.2.5. Wrth benderfynu pwy i'w cynorthwyo, dylai eiriolwyr sicrhau eu bod yn gallu helpu'r rhai â'r angen mwyaf. Yn achos dioddefwyr a ddiffiniwyd ym mhwynt (1) uchod, pan yn bosibl ac yn briodol, dylai eiriolwyr ymdrechu yn y lle cyntaf i gynorthwyo'r unigolyn sydd wedi'u niweidio'n uniongyrchol gan y digwyddiad. Os yw'r dioddefwr o dan 18 oed, neu os ydynt yn oedolyn sy'n dymuno neu sydd angen cael cymorth drwy gynrychiolydd, gall eiriolwyr hefyd eu helpu drwy gynrychiolydd.

1.2.6. Yr eiriolwr sy'n gyfrifol am benderfynu pwy i'w cynorthwyo. Dylai eiriolwyr fel arfer ystyried helpu'n uniongyrchol un aelod o'r teulu agos yn unig neu un ffrind unigolyn

sydd wedi profi niwed difrifol neu a fu farw o ganlyniad i ddigwyddiad, ond dylent ddefnyddio eu disgresiwn mewn achosion lle nad yw hyn yn briodol (er enghraifft, os yw rhieni dioddefwr wedi gwahanu).

1.2.7. Cyn belled â bod y digwyddiad wedi digwydd yng Nghymru neu Lloegr, bydd holl ddioddefwyr digwyddiad yn gymwys i gael cymorth IPA, ble bynnag maent yn byw. Mae hyn yn cynnwys gwladolion Prydeinig a gwladolion tramor sydd fel arfer yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr.

1.2.8. Nid oes gorfodaeth ar unigolion sy'n gymwys i gael cymorth IPA ei dderbyn. Mae cymorth eiriolwr yn ddewisol a gellir gofyn amdano ar unrhyw adeg ar ôl y digwyddiad. Fodd bynnag, nid oes gan neb hawl i fynnu bod eiriolwr yn darparu cymorth, neu gymorth o fath penodol, naill ai iddynt hwy eu hunain neu i rywun arall.

1.2.9. Bydd y cymorth y bydd eiriolwyr yn ei ddarparu'n dibynnu ar amgylchiadau'r digwyddiad ac anghenion y dioddefwyr. O dan y Ddeddf, gall eiriolwyr ddarparu cymorth i ddioddefwyr digwyddiad y tybiant sy'n briodol i ganlyniadau'r digwyddiad, ymchwiliad gan awdurdod cyhoeddus i'r digwyddiad (gan gynnwys ymchwiliad anstatudol), cwest i farwolaeth y gallai'r digwyddiad fod wedi'i achosi neu gyfrannu ato, neu ymchwiliad i'r digwyddiad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005.

1.2.10. Prif nod yr eiriolwyr yw helpu dioddefwyr i weithio'u ffordd drwy'r prosesau sy'n dilyn, dylai'r nod hwn fod yn ganolog i eiriolwyr drwy gydol eu penodiad. Mae'n hanfodol bod eu dull o weithredu'n cael ei lywio gan angen y dioddefwyr. Dylai pob ymgysylltiad â dioddefwyr ddilyn dull sy'n ystyriol o drawma. Disgwylir i'r Eiriolwr Sefydlog, eiriolwyr ychwanegol ac ysgrifenyddiaeth yr IPA ddangos dealltwriaeth dda o'r ymarfer ystyriol i drawma cyfredol.

1.2.11. Er bod y ddeddfwriaeth yn rhoi cryn ddisgresiwn i eiriolwyr o ran sut maent yn cynorthwyo dioddefwyr, mae adran 39 o'r Ddeddf yn cynnwys rhestr o enghreifftiau o gymorth y gall eiriolwyr ei gynnig, ac y dylai eiriolwyr eu cadw mewn cof. Mae'r rhestr fel a ganlyn:

(a) helpu dioddefwyr i ddeall gweithredoedd awdurdodau cyhoeddus yn achos y digwyddiad, a sut y gellir ystyried barn y dioddefwyr;

(b) hysbysu dioddefwyr am ffynonellau cymorth a chyngor eraill, a gwasanaethau a all fod ar gael sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad;

(c) cyfathrebu ag awdurdodau cyhoeddus ar ran dioddefwyr yn achos y digwyddiad;

(d) cynorthwyo dioddefwyr i gael dogfennau neu wybodaeth arall sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad, cwest neu archwiliad i'r digwyddiad (i'r graddau y mae gan ddioddefwyr, neu ddioddefwr penodol, hawl i fynediad o'r fath).

1.2.12. Nid yw'r rhestr hon o ffyrdd o gynorthwyo a awgrymir yn un gyflawn. Dylai eiriolwyr ddefnyddio eu crebwyll i benderfynu pa gamau sy'n briodol yn seiliedig ar amgylchiadau'r digwyddiad penodol.

1.2.13. Rhan allweddol o rôl eiriolwyr yw eu cyfrifoldeb i gynhyrchu adroddiadau. Gall eiriolwyr adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol:

a) yn dilyn hysbysiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol (o dan adran 41(4)) a fydd yn pennu testun yr adroddiad; neu

b) yn ôl eu disgresiwn ar faterion maent yn credu sy'n berthnasol i'r digwyddiad mawr y maent wedi'u penodi iddo; neu

c) gall yr Eiriolwr Sefydlog adrodd unrhyw bryd yn ôl eu disgresiwn ar faterion maent yn teimlo sy'n berthnasol i unrhyw ddigwyddiad mawr, hyd yn oed os nad ydynt wedi'u penodi iddo.

1.2.14. Ni chaniateir i eiriolwyr ddarparu cymorth ariannol, gofal iechyd, na chyngor na chynrychiolaeth gyfreithiol i unrhyw unigolyn. Fodd bynnag, er na allant weithredu fel cynrychiolwyr cyfreithiol na rhoi cyngor cyfreithiol i ddioddefwyr, mi allant gynnig arweiniad ar gyflogi cyfreithwyr yn ystod unrhyw ymchwiliad, cwest neu archwiliad. Gall eiriolwyr hefyd gynghori dioddefwyr ar y broses o gyflogi cyfreithiwr, pan fydd cynrychiolaeth gyfreithiol yn briodol, ac a yw cwmni cyfreithiol eisoes yn cynrychioli rhai o ddioddefwyr eraill y digwyddiad. Wrth gynghori a yw cwmni cyfreithiol eisoes yn cynrychioli dioddefwyr eraill, dylai eiriolwyr fod yn ofalus nad ydynt yn datgelu data personol y dioddefwyr rheini. Dylai unrhyw gyfraniadau gan eiriolwyr sy'n ymwneud â materion cyfreithiol gael eu hystyried fel cyngor anffurfiol, a dylai dioddefwyr gyfeirio at eu cyfreithiwr i gael cyngor ffurfiol.

1.2.15. Fel y nodwyd uchod, mae'r IPA yn gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth ac mae gan eiriolwr/wyr gryn ddisgresiwn o ran sut maent yn cynorthwyo dioddefwyr, yn adrodd ar brofiadau dioddefwyr, a gwneud argymhellion ar welliannau. Gan fod y rôl hon yn un unigryw a newydd, bydd rôl yr Eiriolwr Sefydlog y tu allan i ddigwyddiadau mawr yn datblygu dros amser. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu rôl gyfredol eiriolwyr.

1.2.16. Gan fod digwyddiadau mawr yn bethau unigryw na ellir eu rhagweld, mae'n debygol y bydd y cymorth a gynigir yn amrywio o ddigwyddiad i ddigwyddiad. Dylai'r holl gymorth a gynigir ganolbwyntio ar fudd pennaf y dioddefwyr. Mae'r adran hon o'r canllaw yn disgrifio'r egwyddorion y dylai eiriolwyr eu cadw mewn cof wrth weithredu eu swyddogaethau yn ystod eu hymateb i ddigwyddiad.

**Ymgysylltu â dioddefwyr**

1.2.17. Mae ymgysylltiad positif â dioddefwyr yn ganolog i rôl eiriolwyr. Wrth gynllunio ymgysylltiad â dioddefwyr dylai eiriolwyr feddwl yn ofalus sut y bydd yr ymgysylltiad yn digwydd. Wrth ymgysylltu â dioddefwyr rhaid i ddull sy'n ystyriol o drawma fod yn flaenllaw. Dylai'r ymgysylltiad gael ei lywio a'i arwain gan y dioddefwyr.

1.2.18. Dylai eiriolwyr fod yn ymwybodol o'r amser y gall gymryd i ganfod manylion y rhai sydd wedi'u hanafu/wedi marw a hefyd bod yn sensitif i'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth weithredu yn y cyd-destun hwn. Yn benodol, dylent fod yn ofalus nad ydynt yn ymgymryd ag unrhyw ymgysylltiad a all fod yn amhriodol cyn bod y broses Adnabod Dioddefwyr Trychineb wedi'i chwblhau. Rhaid ymdrin yn sensitif ac ystyriol ag unrhyw ymgysylltiad rhagweithiol o gyfeiriad y dioddefwyr cyn cwblhau'r broses hon.

1.2.19. Darperir cymorth gan IPA drwy atgyfeiriad – nid yw cymorth yn orfodol, ac er mwyn ei gael, rhaid i ddioddefwyr gydsynio i rannu eu gwybodaeth â'r IPA (mi all hyn ddigwydd drwy atgyfeirio eu hunain neu drwy atgyfeiriad gan eu Swyddog Cyswllt â Theuluoedd (FLO) yr heddlu. I sicrhau bod y cydsyniad hwn wedi'i roi, dylai eiriolwyr, pan yn bosibl, aros nes bydd dioddefwyr wedi cael eu hatgyfeirio at gymorth IPA neu wedi atgyfeirio eu hunain cyn ymgysylltu'n uniongyrchol â hwy.

1.2.20. Bydd ymgysylltiad yn y cyfnod cynnar yn dilyn digwyddiad fwy na thebyg yn digwydd mewn ffordd gynnil, er enghraifft, cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth a rhoi arweiniad a gwybodaeth i'w helpu drwy brosesau cymhleth yn dilyn y digwyddiad a fydd yn digwydd yn syth ar ôl y digwyddiad. Dylai eiriolwyr sicrhau eu bod wedi ystyried yn ofalus y gwasanaethau maent yn eu cyfeirio atynt. Dylai eiriolwyr gysylltu â phartneriaid gweithredol sy'n ymateb i'r digwyddiad a darparu cymorth i ddioddefwyr i sicrhau bod y cymorth a gynigir i ddioddefwyr wedi'i gydlynu ac nad yw'n cael ei ddyblygu. Fel y nodwyd uchod, mae gan eiriolwyr ddisgresiwn o ran sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau, ac felly eu lle hwy yw penderfynu pa gamau sydd fwyaf priodol yn y cyfnod cynnar yn dilyn y digwyddiad.

1.2.21. Wrth ymgysylltu â'r system farnwrol (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i grwneriaid) dylai eiriolwyr fod yn ymwybodol o wahanu pwerau ac annibyniaeth gyfansoddiadol y farnwriaeth[2].

1.2.22. Wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â chyfeirio at gymorth, dylai eiriolwyr ystyried darparwyr gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr eraill i sicrhau bod y cymorth yn gydnaws ac i osgoi dryswch a gofalu peidio llethu dioddefwyr â gwybodaeth. Mae'n hanfodol bod y cymorth ehangach i ddioddefwyr ar

---

[2] Independence - Courts and Tribunals Judiciary

gyfer y digwyddiad yn rhwydd i ddioddefwyr ei ddeall ac i gael mynediad ato. Dylai eiriolwyr hwyluso hyn pan yn bosibl.

1.2.23. Dylai'r eiriolwr wneud yn siŵr bod y dioddefwyr yn deall eu hawliau yn ystod y gwahanol gamau a gallant eu helpu i gael gafael ar wybodaeth fel y gallant chwarae rhan lawn yn y prosesau yn dilyn y digwyddiad. Gall eiriolwyr helpu dioddefwyr i ofyn am yr wybodaeth mae ganddynt hawl iddi yn unig. Gweler Rhan 3 am ragor o fanylion am rannu gwybodaeth.

1.2.24. Bydd eiriolwyr yn gweithredu fel dolen gyswllt hollbwysig rhwng y dioddefwyr ac awdurdodau cyhoeddus neu'r Llywodraeth a bydd yn ymdrechu i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu clywed, a'u helpu i fynegi pryderon os bydd angen. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar ymgysylltiad â'r dioddefwyr. Bydd yr eiriolwyr yn gallu adrodd yn ôl ar y pryderon neu'r problemau sydd gan y dioddefwyr wrth iddynt eu profi, a'r gobaith yw y bydd hynny'n arwain at ddatrysiad cyflymach pan yn bosibl.

1.2.25. Gall eiriolwyr hefyd ystyried a fyddai'n briodol iddynt i rannu gwybodaeth â'r Llywodraeth, yn seiliedig ar y profiad a gawsant yn sgil eu rôl, i lywio datblygiad polisïau sy'n ymwneud â dioddefwyr digwyddiadau mawr.

**Rhyngweithio â phrosesau presennol**

1.2.26. Mae llawer o wasanaethau cymorth a phrosesau gwladwriaethol ar gael eisoes yn dilyn digwyddiad mawr. Mae'n hanfodol nad yw eiriolwyr yn rhwystro, yn amharu ar, nac yn dyblygu'r rhain. Dylai eiriolwyr ystyried sut i ryngweithio â'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn barod i ategu'r help maent yn ei ddarparu, ac i osgoi dyblygu eu swyddogaethau lle mae'r rhain yn cael eu darparu eisoes. Yn benodol, rhaid i eiriolwyr barchu a bod yn ymwybodol o rôl y FLOs a benodir gan yr heddlu lleol yn dilyn digwyddiad troseddol. Mae rolau o'r fath yn hanfodol i ddioddefwyr yn y cyd-destun hwn a dylai eiriolwr ymdrechu i gyfrannu at, ac ategu, yn hytrach na dyblygu'r gwasanaeth hwn

1.2.27. Ni fydd yr IPA yn cyfrannu'n uniongyrchol at brosesau ymchwilio: eu rôl yw cynnig cymorth i ddioddefwyr. Ni ddylai'r IPA ddyblygu na thanseilio gwaith cyrff ymchwilio yn dilyn digwyddiad mawr.

1.2.28. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i eiriolwyr fod yn ymwybodol o'r prosesau ymchwilio sy'n digwydd yn dilyn digwyddiad mawr a rhaid bod yn ofalus i beidio niweidio, dylanwadu nac amharu mewn unrhyw ffordd ar yr ymchwiliadau hyn. Yn benodol, ni ddylai eiriolwyr gymryd unrhyw gamau na gwneud unrhyw ddatganiadau cyhoeddus nac arall a allai danseilio ymchwiliad.

1.2.29. Bydd eiriolwyr yn gweithio â'r heddlu(oedd) perthnasol i ddeall unrhyw ddatblygiadau yn ymwneud â'r ymchwiliad sy'n berthnasol i swyddogaethau'r IPA,

gan gynnwys y broses Adnabod Dioddefwyr Trychineb. Bydd angen iddynt sicrhau bod timau FLO yn gwybod sut i gyfeirio at gymorth yr IPA.

1.2.30. Pe bai'r eiriolwr a benodwyd yn dymuno ymweld â safle'r digwyddiad, rhaid iddynt wybod pa bryd, ym mhle a sut ddylai hyn ddigwydd, yn enwedig yn syth ar ôl y digwyddiad. Rhaid i unrhyw benderfyniad ynglŷn ag ymweld â'r safle gael ei wneud ar ôl cael cyngor yr Uwch Swyddog Ymchwilio (SIO) neu'r Uwch Swyddog Adnabod (SIM) ar gyfer y digwyddiad. Efallai y bydd amgylchiadau lle na fydd yn bosibl i'r eiriolwr fod yn bresennol yn bersonol yn safle'r digwyddiad, os o gwbl, nes bydd yr ymatebwyr i'r argyfwng wedi cadarnhau ei fod yn ddiogel.

**Ymchwiliad y crwner a threfniadau adolygu eraill**

1.2.31. Mae crwner yn fath arbennig o farnwr sy'n ymchwilio i farwolaethau annaturiol neu dreisgar, lle mae achos y farwolaeth yn anhysbys, neu oherwydd bod y farwolaeth wedi digwydd mewn carchar, dalfa'r heddlu neu fath arall o gaethiwed y wladwriaeth, fel ysbyty meddwl. Fel barnwr, mae'r crwner yn annibynnol, ac mae hynny'n cynnwys bod yn annibynnol ar y llywodraeth ond hefyd ar gyfranogwyr eraill yn y broses. Oherwydd yr annibyniaeth hon, dim ond drwy lwybrau cyfreithiol priodol drwy'r Uchel Lys y gellir herio eu penderfyniadau; mae hyn yn golygu na ddylai Eiriolwyr (nac eraill) gysylltu â'r crwner yn anffurfiol i ofyn - er enghraifft - bod tystiolaeth yn cael ei datgelu, y dylai penderfyniad barnwrol neu ganlyniad penodol gael ei wneud.

1.2.32. Yn dilyn digwyddiad mawr, mae bron yn sicr y bydd ymchwiliad crwner yn arwain at gwest, sy'n wrandawiad llys cyhoeddus a gynhelir gan y crwner i benderfynu pwy a fu farw, a sut, pa bryd ac ym mhle y digwyddodd y farwolaeth.

1.2.33. Mae adran 47(2)(kb) Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ('Deddf 2009') yn disgrifio eiriolwr a benodwyd yn achos digwyddiad mawr fel "unigolyn â buddiant" i ddibenion ymchwiliad crwner. Mae gan unigolion â buddiant nifer o hawliau statudol yn ystod y broses ymchwilio. Mae'r rhain wedi'u nodi yn 'Canllaw i Wasanaethau Crwneriaid ar gyfer Pobl mewn Profedigaeth' y Weinyddiaeth Gyfiawnder[3].

1.2.34. Mae rhai o hawliau unigolyn â buddiant yn cyfrif fel gweithgarwch cyfreithiol. Ni chaniateir i eiriolwyr weithredu'r hawliau hyn oherwydd, o dan adran 39(8)(a) o'r Ddeddf, maent wedi'u gwahardd rhag ymgymryd â 'gweithgarwch cyfreithiol'. Hefyd, ni fydd eiriolwr yn cael eu cynrychioli mewn archwiliadau post-mortem (mae gan unigolion â buddiant yr hawl hwnnw o dan adran 13 Rheoliadau'r Crwner (Ymchwiliadau) 2013[4]). Ni fydd gan eiriolwyr rôl mewn egluro canfyddiadau archwiliadau fforensig neu bost-mortem a phatholeg eraill i ddioddefwyr.

---

[3] Canllaw i Wasanaethau Crwneriaid ar gyfer Pobl mewn Profedigaeth

[4] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1629/regulation/13/made

1.2.35. Yn achos trefniadau holgar neu adolygu eraill, fel ymchwiliad statudol neu anstatudol, dylai rôl yr eiriolwr fod yn un gefnogol i helpu dioddefwyr i gymryd rhan yn y broses. Dylai eiriolwyr sicrhau bod y dioddefwyr yn deall y prosesau sydd i ddilyn a'u bod yn deall beth fydd yn digwydd a pha bryd. Ni ddylai eiriolwyr chwarae rhan weithredol yn yr achos nac ymyrryd yn swyddogaeth ymchwiliol yr adolygiad. Yr unig eithriad i hyn fyddai pe bau'r dioddefwyr yn gofyn i'r eiriolwr siarad ar eu rhan (gyda chaniatâd y Cadeirydd), neu os gelwir arnynt fel tyst.

1.2.36. Os bydd yr eiriolwr yn bresennol yn unig i arsylwi neu gefnogi dioddefwyr, hwy fydd yn penderfynu a ddylent fod yn bresennol yn bersonol (neu drwy ddulliau eraill a ganiateir fel fideo) yn y cwest / ymchwiliad / adolygiad. Dylai'r penderfyniad gael ei wneud ar ôl ystyried priodoldeb eu presenoldeb, a barn y dioddefwyr.

1.2.37. Fel rhan o'u rôl mewn ymchwiliadau cyhoeddus, gall eiriolwyr gynrychioli buddiannau a barn dioddefwyr pan fydd y Llywodraeth yn ystyried a ddylid galw ymchwiliad i'r digwyddiad, gan gynnwys y cyfrwng a'r cwmpas priodol. Dylai eiriolwyr gyfleu disgwyliadau a blaenoriaethau dioddefwyr yn achos yr adolygiad arfaethedig, yn seiliedig ar eu hymgysylltiad â hwy. Os bydd y rhain, yn eu barn hwy, yn groes i'r hyn sydd er budd pennaf y dioddefwyr, dylai eiriolwyr dynnu sylw at y gwahaniaeth hwn. Yn y pen draw, fodd bynnag, rôl yr eiriolwr yw deall a chrynhoi safbwyntiau'r dioddefwyr gyda'i gilydd a'u cyfleu i'r Llywodraeth. Nid yw'r rôl gynrychioli hon yn atal y Llywodraeth rhag ymgysylltu'n uniongyrchol â'r dioddefwyr os yw'n dymuno.

1.2.38. Nid yw cyngor gan yr eiriolwr yn ymrwymo'r Gweinidog ac nid yw'n gosod unrhyw rwymedigaeth statudol arnynt i weithredu arno.

1.2.39. Nid yw penodi eiriolwr, ynddo'i hun, yn golygu y bydd yn rhaid agor ymchwiliad gan grwner neu ymchwiliad.

## 1.3 Rôl Eiriolwyr Ychwanegol sy'n cael eu Penodi i Ddigwyddiad Mawr

1.3.1. Mewn rhai amgylchiadau, gall nifer anghenion neu anghenion penodol y dioddefwyr fod yn fwy na'r hyn y gall un eiriolwr ei gyflawni. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol felly benodi eiriolwyr ychwanegol lle bydd angen.

1.3.2. Pan fydd sawl eiriolwr wedi'u penodi, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi eiriolwr arweiniol i gael llinell atebolrwydd glir. Dylai'r eiriolwr arweiniol roi cyfarwyddiadau i'r eiriolwyr eraill a chyflawni swyddogaeth arweinydd a chydlynydd. Byddant yn gyfrifol am gydlynu adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac am roi unrhyw ddiweddariadau sy'n ofynnol yn achos y digwyddiad mawr.

1.3.3. Gan mai bwriad y Llywodraeth yw mai'r eiriolwr a benodir gyntaf i ddigwyddiad mawr fydd yr Eiriolwr Sefydlog fel arfer, mae'n debygol felly y byddant yn gweithredu fel yr eiriolwr arweiniol yn y rhan fwyaf o ddigwyddiadau mawr lle bydd eiriolwyr ychwanegol yn cael eu penodi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd digwyddiadau lle byddai'n fwy priodol i benodi eiriolwr arall fel yr un arweiniol – er enghraifft, mewn amgylchiadau lle bydd angen gwybodaeth arbenigol neu sgiliau penodol.

1.3.4. Os bydd sawl digwyddiad mawr yn digwydd ar yr un pryd, y bwriad yw y bydd yr Eiriolwr Sefydlog yn cael eu penodi fel yr eiriolwr arweiniol ar gyfer pob un o'r digwyddiadau (ar yr amod eu bod ar gael ac yn ddibynnol ar faint y digwyddiad). Mae'n debygol felly y bydd eiriolwyr ychwanegol yn cael eu penodi i ddelio â'r galw ychwanegol. Pan yn bosibl, dylai dioddefwyr gael eu hysbysu o'r penodiadau hyn cyn eu bod yn cael eu cyhoeddi'n gyhoeddus.

1.3.5. O dan adran 38(3) o'r Ddeddf, os penodir eiriolwyr ychwanegol, rhaid iddynt ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr eiriolwr arweiniol wrth gyflawni eu swyddogaethau. Er bydd yr eiriolwr arweiniol yn darparu arweinyddiaeth i'r eiriolwyr ychwanegol, bydd ganddynt rywfaint o hyblygrwydd i ddefnyddio eu crebwyll wrth ddilyn cyfarwyddiadau'r eiriolwr arweiniol, pan yn briodol. Disgwylir i eiriolwyr ddod i gytundeb â'r Eiriolwr Sefydlog (neu eiriolwr arweiniol arall os nad ydynt ar gael) mewn unrhyw feysydd lle mae anghytundeb. Yr Eiriolwr Sefydlog (neu'r eiriolwr arweiniol arall) fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol.

## 1.4 Rôl Eiriolwr ar ôl i'r achos ddod i ben

1.4.1. Nid oes gan yr IPA rôl ffurfiol ar ôl i adolygiad sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad (e.e. ymchwiliad) ddod i ben. Pan fydd ymchwiliad, ymchwiliad crwner, neu adolygiad yn dilyn digwyddiad mawr wedi dod i ben, gall yr eiriolwr (neu, os oes mwy nag un eiriolwr wedi'u penodi, yr eiriolwr arweiniol) gynhyrchu adroddiad, naill ai'n annibynnol neu ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, sy'n cynnwys manylion am y cymorth a ddarparwyd i ddioddefwyr, eu myfyrdodau ar brofiad y dioddefwyr, ac unrhyw arferion gorau neu wersi a ddysgwyd. Dylai eu pwyslais barhau i fod ar ddioddefwyr y digwyddiad. Os bydd yr eiriolwr yn adrodd ar yr un pryd ag y daw cwest neu ymchwiliad i'r digwyddiad i ben, dylent ystyried amseriad ei gyhoeddi a'i gysylltiad ag adroddiad y cwest/ymchwiliad. Nid oes ymrwymiad ar y Llywodraeth i ymateb nac i weithredu ar argymhellion a wneir mewn adroddiadau IPA.

1.4.2. Dylai cymorth IPA yn y dyfodol fod yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil penodiadau blaenorol i ddigwyddiad. Yn dilyn penodiad cyntaf eiriolwr i ddigwyddiad o dan y Ddeddf, bydd adolygiad yn cael ei gynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud â gweithredu Rhan 2 o'r Ddeddf yn ystod y cyfnod o 18 mis sy'n dilyn penodiad yr eiriolwr. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn

cynhyrchu adroddiad, yn unol â gofynion adran 47 o'r Ddeddf. Dylai eiriolwyr gadw casgliadau'r adolygiad hwn mewn cof yn ystod penodiadau yn y dyfodol i ddigwyddiadau eraill.

# Rhan Dau: Gweithio ag Awdurdodau Cyhoeddus

## 2.1 Cefndir

2.1.1. Un o swyddogaethau allweddol yr IPA yw cysylltu a gweithio ag awdurdodau cyhoeddus er mwyn canfod y ffordd orau o gynorthwyo dioddefwyr a deall eu hanghenion yn dilyn digwyddiad. Mae'n hanfodol sicrhau bod yr IPA yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ddigwyddiad mawr os ydynt am gyflawni swyddogaethau eiriolwr yn llwyddiannus. Mae'r adran hon yn nodi'r egwyddorion penodol y dylai eiriolwyr eu dilyn pan fyddant yn gweithio ag awdurdodau cyhoeddus.

2.1.2. I ddibenion yr IPA mae awdurdodau cyhoeddus yn cael eu diffinio yn adran 35(5) o'r Ddeddf fel:

> "(a) llys, tribiwnlys, crwner neu banel ymchwilio o fewn ystyr adran 3 Deddf Ymchwiliadau 2005, ac
>
> (b) unrhyw unigolyn arall y mae ei swyddogaethau'n sicr yn swyddogaethau o natur gyhoeddus
>
> Ond nid yw'n cynnwys y Gwasanaeth Diogelwch, y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol na Phencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth".

## 2.2 Egwyddorion

2.2.1. Dylai eiriolwyr fabwysiadu dull cydweithredol pan fyddant yn gweithio ag awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod perthynas waith effeithiol yn cael ei sefydlu a'i chynnal â'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i eiriolwyr gyflawni eu rôl gan gynnwys, pan yn briodol, cynorthwyo dioddefwyr i ddeall gweithredoedd awdurdodau cyhoeddus a chyfathrebu ag awdurdodau cyhoeddus ar ran dioddefwyr, yn unol â swyddogaethau eiriolwyr fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, fel ym mharagraff 1.2.6. Mae hefyd yn bwysig bod y cymorth a ddarperir i ddioddefwyr yn seiliedig ar ddealltwriaeth o amgylchiadau ehangach y digwyddiad.

2.2.2. Dylai eiriolwyr fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth presennol a phrosesau'r wladwriaeth yn dilyn digwyddiad mawr a dylent feddwl sut y byddant yn ymwneud â hwy. Dylai'r rhyngweithio fod yn bositif ac ni ddylai ddyblygu nac amharu ar waith y gwasanaethau cymorth na phrosesau'r wladwriaeth.

2.2.3. Rhaid i'r IPA, ar bob adeg, gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data a rheoli cofnodion bresennol a rhoi sylw dyladwy i'r protocolau datgelu presennol a sefydlwyd gan awdurdodau cyhoeddus pan fyddant yn gofyn am wybodaeth (mae Rhan 3 o'r canllawiau hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am rannu a rheoli gwybodaeth).

## 2.3 Gwneud Cwyn i Awdurdod Cyhoeddus

2.3.1. Rhaid i eiriolwyr, pan yn bosibl, weithio mewn ffordd gydweithredol â'r awdurdod cyhoeddus i roi sylw i unrhyw bryderon neu gwynion a all godi a cheisio canfod datrysiadau'n anffurfiol, pan yn briodol.

2.3.2. Fodd bynnag, os bydd eiriolwr o'r farn bod angen gwneud cwyn ffurfiol i awdurdod cyhoeddus (boed ar ran dioddefwr/wyr neu sy'n ymwneud â'u cysylltiad eu hunain â'r awdurdod hwnnw), dylai'r eiriolwr wneud cwyn drwy weithdrefn gwyno bresennol yr awdurdod cyhoeddus. Os yw'r gŵyn ar ran dioddefwr, dylai eiriolwyr sicrhau bod y dioddefwr yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses a dylai unrhyw gamau a gymerir gael eu harwain ganddynt hwy.

2.3.3. Os na fydd cwyn ffurfiol yn datrys y mater, gall eiriolwyr ystyried uwchgyfeirio'r mater. Pan yn briodol, gall yr Eiriolwr Sefydlog fynegi pryderon â'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 35(2)(a) o'r Ddeddf, sy'n ymdrin â chynghori ar fuddiannau a thriniaeth dioddefwyr, neu mi allant uwchgyfeirio'r gŵyn i'r Ombwdsmon priodol.

2.3.4. Mae gweithdrefnau cwyno penodol yn bodoli yn achos prosesau barnwrol (gan gynnwys y system crwner). Dim ond drwy'r llwybr cyfreithiol priodol y gellir herio penderfyniadau barnwrol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, a ddylid cynnal archwiliad post-mortem, penderfyniadau ar ba dystiolaeth i'w chlywed yn y cwest yn ogystal â chanfyddiadau'r crwner neu'r rheithgor ar ddiwedd y cwest). Yn achos penderfyniadau crwner, bydd hyn drwy'r Uchel Lys, ac yn ddibynnol ar yr amgylchiadau bydd naill ai drwy adolygiad barnwrol neu drwy weithdrefn a bennir yn adran 13 Deddf Crwneriaid 1988.

2.3.5. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i eiriolwyr fynd ati i gychwyn heriau cyfreithiol yn erbyn penderfyniadau barnwrol gan eu bod wedi'u gwahardd rhag ymgymryd â 'gweithgarwch cyfreithiol'.

2.3.6. Hefyd, dylai cwynion am ymddygiad personol (ond nid penderfyniadau barnwrol) deiliad unrhyw swydd farnwrol, gan gynnwys crwner, gael eu gwneud i'r Swyddog Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol (JCIO)[5].

[5] Y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol (JCIO)

# Rhan Tri: Rhannu a Rheoli Gwybodaeth yr IPA

## 3.1 Cefndir

3.1.1. Bydd Eiriolwyr yn sicrhau bod dioddefwyr yn deall eu hawliau ac mi allant, pan yn briodol, helpu dioddefwyr i gael gafael ar ddata a gwybodaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyfranogi mor llawn â phosibl mewn prosesau ar ôl y digwyddiad, o fewn fframwaith a chyfyngiadau'r ymchwiliad penodol, ymchwiliad y crwner neu adolygiad. Gall yr eiriolwr helpu dioddefwyr i gael gwybodaeth ffynhonnell agored a'u helpu i ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus, er enghraifft, cynorthwyo dioddefwyr i ganfod gwybodaeth ar wefannau'r Llywodraeth neu drwy weithdrefnau datgelu sy'n bodoli eisoes.

3.1.2. Rhaid i eiriolwyr barchu unrhyw gais gan awdurdod cyhoeddus i gyfyngu ar rannu gwybodaeth a ddarperir iddynt yn ehangach. Os bydd eiriolwr yn tybio fod rhannu ymlaen yn angenrheidiol a phriodol, rhaid iddynt yn gyntaf gael cytundeb yr awdurdod cyhoeddus perthnasol.

3.1.3. Os oes problemau o ran diffyg cydymffurfiaeth â phrotocolau datgelu presennol neu ag unrhyw gytundebau rhannu data sydd ar waith rhwng yr IPA ac awdurdod cyhoeddus, dylai eiriolwyr godi'r mater â'r awdurdod cyhoeddus dan sylw, a phan fydd angen gwneud cwyn gan ddefnyddio gweithdrefnau cwyno/herio presennol.

## 3.2 Yr IPA a fframweithiau deddfwriaethol presennol

3.2.1. Rhaid i'r IPA, bob amser, gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth diogelu data a'r rheoliadau rheoli cofnodion presennol.

3.2.2. Mae Adran 43 o'r Ddeddf yn cynnwys porth rhannu data sy'n galluogi awdurdodau cyhoeddus i rannu gwybodaeth ag eiriolwyr os bydd yn helpu eiriolwr i gyflawni eu rôl, ac i'r gwrthwyneb. Nid yw'n system i orfodi gwybodaeth. Mae'r porth yn caniatáu eiriolwyr, i'r graddau maent yn ei ystyried sy'n briodol, i rannu gwybodaeth a gânt wrth gyflawni eu swyddogaethau â'r canlynol:

- yr Eiriolwr Sefydlog;
- unrhyw eiriolwr arall a benodir yn gysylltiedig â'r un digwyddiad mawr;
- yr Ysgrifennydd Gwladol;
- unrhyw unigolyn arall sy'n cyflawni swyddogaethau sy'n rhai cyhoeddus;
- dioddefwr digwyddiad mawr y mae'r eiriolwr wedi'i benodi ar ei gyfer.

3.2.3. Nid oes gan y porth statudol ragoriaeth dros unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data bresennol. Rhaid i staff yr IPA gydymffurfio bob amser ag eithriadau diogelwch gwladol a sicrhau, pan fyddant yn prosesu a/neu'n rhannu data personol gan ddefnyddio'r porth hwn, eu bod yn cydymffurfio ag Erthygl 6 o GDPR y DU[6]. Mae'n debygol y bydd y mwyafrif llethol o'r prosesu a/neu rannu data personol gan ddefnyddio'r porth hwn yn dod o fewn sail gyfreithlon "tasg gyhoeddus"; fodd bynnag, rhaid i'r eiriolwyr ac ysgrifenyddiaeth yr IPA sicrhau bod hyn (neu sail gyfreithlon arall o dan Erthygl 6) yn gymwys cyn bwrw ymlaen.

3.2.4. Mae'r porth yn hwyluso mynediad at wybodaeth y mae gan ddioddefwyr hawl iddi eisoes ac mae'n cynnal hawliau presennol dioddefwyr i gael gwybodaeth. Ni fydd yr IPA yn rhoi llwybr i gael gafael ar wybodaeth nad oes gan ddioddefwyr hawl iddi eisoes.

3.2.5. Gall rhannu gwybodaeth ymlaen ddigwydd drwy gyfathrebu â dioddefwyr neu awdurdodau cyhoeddus. Ym mhob achos lle mae'r eiriolwr o'r farn bod rhannu gwybodaeth yn briodol, rhaid iddynt yn gyntaf ystyried a sicrhau (boed drwy drafodaeth â'r awdurdod cyhoeddus a rannodd yr wybodaeth neu drwy ddull arall) na fydd rhannu unrhyw wybodaeth yn:

(a) achosi marwolaeth neu anaf i unrhyw unigolyn
(b) achosi perygl o niwed i ddiogelwch gwladol neu gysylltiadau rhyngwladol
(c) achosi perygl o niwed i fuddiannau economaidd y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig
(d) achosi perygl o niwed drwy ddatgelu gwybodaeth fasnachol sensitif
(e) torri unrhyw amodau cyfrinachedd sy'n rhan o rannu'r deunydd â'r eiriolwr
(f) mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data (o fewn yr ystyr a roddir gan Adran 3 Deddf Diogelu Data 2018), neu yn
(g) peryglu-
   i. ymchwiliad neu erlyniad trosedd
   ii. ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005
   iii. ymchwiliad o dan adran 1 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, neu
   iv. unrhyw archwiliad neu ymchwiliad gan unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

3.2.6. Os bydd asesiad rhesymol gan yr eiriolwyr wedi dod i'r casgliad y byddai rhannu gwybodaeth yn berygl neu'n achosi unrhyw rai o'r uchod, bydd rhannu'r wybodaeth honno'n cael ei wahardd yn gyfan gwbl. Cyn gwneud y penderfyniad hwn, dylai eiriolwyr ymgynghori â ffynhonnell wreiddiol yr wybodaeth i gael eu barn hwy.

[6] Article 6 UK GDPR - Lawful Basis for processing/sharing information

## 3.3 Sut y bydd yr IPA yn defnyddio gwybodaeth

3.3.1. Dylai'r IPA asesu unrhyw ddata a geir nad yw'n arddangos nod Dosbarthiad Diogelwch Llywodraeth Ei Fawrhydi (ceir arweiniad er gwybodaeth isod) ac wedyn ystyried a fyddai'n briodol i rannu'r wybodaeth a gafwyd (yn ôl yr angen) ag awdurdodau cyhoeddus eraill neu ddioddefwyr o dan borth rhannu gwybodaeth statudol yr IPA. Wrth benderfynu a ellir rhannu gwybodaeth, rhaid i'r IPA ystyried a yw gwneud hynny'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a/neu Gytundebau Rhannu Data unigol sydd ar waith ag awdurdodau cyhoeddus.

**Gwybodaeth bersonol**

3.3.2. Mae'n anorfod y bydd eiriolwyr, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn casglu ac yn prosesu data personol dioddefwyr digwyddiad mawr y mae eiriolwr wedi'i benodi ar ei gyfer. Gall y data hwn gynnwys enwau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost, neu rifau ffôn dioddefwyr, er enghraifft. Gall y data hwn fod wedi'i:

- rannu â'r IPA gan awdurdodau cyhoeddus ar ran dioddefwyr, e.e. drwy FLO lle mae'r dioddefwr/wyr wedi gofyn i gael eu rhoi mewn cysylltiad ag IPA;
- casglu drwy gysylltiad uniongyrchol eiriolwr â dioddefwr neu ddioddefwyr ar ôl y digwyddiad mawr;
- casglu drwy "hunan atgyfeiriadau" am gymorth a wneir gan ddioddefwyr drwy wefan, e-bost neu gyfeiriad post yr IPA;
- datgelu gan y crwner o ganlyniad i statws yr IPA fel person â buddiant.

3.3.3. Mae manylion llawn am sut y bydd yr IPA yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol yn hysbysiad preifatrwydd yr IPA.

**Gwybodaeth gyda Dosbarthiad Diogelwch Llywodraeth Ei Fawrhydi**

3.3.4. Wrth gyflawni swyddogaethau eiriolwr, gall yr IPA gael gwybodaeth gan awdurdod cyhoeddus sydd wedi'i marcio o dan Bolisi Dosbarthiad Diogelwch Llywodraeth EF[7]. Dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio wrth weithredu swyddogaethau'r IPA yn unig a rhaid i'r IPA gydymffurfio â'r polisi dosbarthiad wrth benderfynu sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu, ei rhannu a'i storio. Ni fydd yr IPA yn caniatáu mynediad at wybodaeth na fyddai gan ddioddefwyr digwyddiad mawr hawl eisoes i'w gweld.

**Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymchwiliad sydd ar waith**

3.3.5. Gall yr IPA, wrth weithredu eu swyddogaethau, gael gwybodaeth sydd yn eu barn hwy'n berthnasol i ymchwiliad troseddol sydd ar waith. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i'r eiriolwr a benodwyd gysylltu â'r Uwch Swyddog Ymchwilio neu gynrychiolydd

[7] Polisi Dosbarthiad Diogelwch Llywodraeth Ei Fawrhydi

cytunedig/sefydledig arall o'r heddlu o fewn yr heddlu neu gorff ymchwilio perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol i'w hysbysu. Gall eiriolwyr rhannu gwybodaeth, bersonol neu arall, a roddir iddynt gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn unol ag Erthygl 6 o'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data[8], os bydd angen.

**Storio a gwaredu (Pob math o wybodaeth a chofnodion)**

3.3.6. Rhaid i'r holl bapurau, cofnodion a dogfennau digidol a ffisegol a grëir, a gesglir, a geir neu a brosesir gan yr IPA gael eu storio'n ddiogel ac yn unol â Chofrestr Cadw a Dosbarthu Cofnodion (RRDS) yr IPA.

3.3.7. Dylai'r holl gofnodion unigryw fel y nodwyd ar RRDS yr IPA gael eu cadw'n unol â'r cyfnodau cadw a bennwyd yn yr RRDS a naill ai eu dinistrio'n ddiogel neu eu trosglwyddo i Swyddog Cofnodion Adrannol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gael eu hadolygu ac wedyn o bosibl eu trosglwyddo i'r Archifau Gwladol.

[8] A guide to lawful basis | ICO

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon,
ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti,
bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.